**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref

Paul Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Paul.Davies@senedd.cymru

24 Hydref 2022

Annwyl Paul,

Diolch am y cyfle i drafod Bil Amaethyddiaeth (Cymru) yn sesiwn y Pwyllgor ar 5 Hydref. Yn ystod y cyfarfod, gofynnodd Sarah Murphy AS nifer o gwestiynau ynglŷn ag (1) a yw'r darpariaethau casglu data yn y Bil yn cyd-fynd â Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data ("GDPR y DU"), (2) a ellid gwerthu data a gesglir o dan y Bil i drydydd partïon, (3) a fyddai'n rhaid i ffermwyr gydsynio i ddarparu data, a (4) sut y byddai diddymiad posibl GDPR y DU yn effeithio ar y Bil. Cytunais i ysgrifennu at y Pwyllgor ynghylch gwerthu data i drydydd partïon a meddyliais efallai y byddai'n ddefnyddiol ehangu ymhellach ar y pwyntiau hyn yn fwy cyffredinol.

Gallaf gadarnhau bod y darpariaethau casglu data yn y Bil yn cydymffurfio â GDPR y DU a'r ddeddfwriaeth diogelu data gyffredinol.

Mewn perthynas â'r ail gwestiwn, nid oes darpariaeth o fewn y Bil sy'n atal yn benodol werthiant gwybodaeth a gesglir i drydydd partïon. Fodd bynnag, nid yw gwerthu data i drydydd partïon yn rhan o bolisi Llywodraeth Cymru nac yn fwriad ehangach gennym. Mae'r darpariaethau rhannu data yn y Bil yn fanwl iawn ac yn cynnwys nifer o gyfyngiadau a mesurau diogelu sy'n ymwneud â'r dibenion y gellir casglu data ar eu cyfer a sut y mae'r data i'w brosesu. Er enghraifft, dim ond i hyrwyddo un neu ragor o restr benodol a chyfyngedig o ddibenion a nodir yn y Bil y gellir casglu data, megis helpu i gynyddu cynhyrchiant, hyrwyddo tryloywder neu degwch mewn cadwyni cyflenwi bwyd-amaeth neu fonitro ffynonellau cyflenwi ar gyfer bwyd.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

O ran mesurau diogelu, mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi eu gofynion drafft arfaethedig ar gyfer sylwadau o leiaf pedair wythnos cyn i'r gofynion gwybodaeth gael eu cyflwyno. Rhaid i'r gofynion hyn nodi'r dibenion y bydd yr wybodaeth yn cael ei phrosesu ar eu cyfer ac ni all prosesu'r wybodaeth dorri'r gofynion a bennir. At hynny, dim ond drwy ddefnyddio gweithdrefn gadarnhaol y Senedd y gall Gweinidogion Cymru wneud unrhyw reoliadau sy'n cyflwyno rhwymedigaethau i ddarparu gwybodaeth o dan y Bil. Mae hyn yn rhoi pwerau craffu sylweddol i Aelodau o'r Senedd mewn perthynas â'r wybodaeth sy'n cael ei chasglu.

Mae mesurau diogelu pellach ar waith. Yn unol â'n rhwymedigaeth statudol i ymgynghori â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, fel Rheoleiddiwr y DU (Erthygl 36(4)) wrth ddrafftio deddfwriaeth sy'n effeithio ar brosesu data personol, mae swyddogion wedi ymgynghori â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar y darpariaethau data o fewn y Bil. Mae hyn yn ymgysylltu parhaus ar bob agwedd ar gasglu data a diogelu data mewn perthynas â'r Bil. Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn sicrhau bod y darpariaethau yn cydymffurfio â'r egwyddorion diogelu data a ymgorfforir yn GDPR y DU a Deddf Diogelu Data 2018. O ganlyniad, ni all Llywodraeth Cymru roi deddfwriaeth ar waith sy'n diystyru'r egwyddorion hyn ac nad yw'n parchu GDPR y DU. Mae'r broses ymgynghori statudol hon gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn darparu lefel ychwanegol o ddiogelwch.

O ran cydsynio i ddarparu gwybodaeth, pan gesglir data gan ffermwyr ar sail wirfoddol, er enghraifft gan yr Arolwg Busnes Fferm Blynyddol, mae angen eu cydsyniad i brosesu'r data. Mae'r Bil hefyd yn cynnwys mecanweithiau statudol sy'n gallu ei gwneud yn ofynnol i fathau penodol o ddata gael eu darparu gan ffermwyr at ddibenion cyfyngedig a phenodol, ac er na fydd angen cydsyniad ffermwyr pan ddefnyddir y mecanweithiau hyn, bydd ffermwyr yn gallu dylanwadu ar y gofynion hynny drwy gyflwyno sylwadau naill ai eu hunain, drwy gynrychiolwyr rhanddeiliaid neu Aelodau o'r Senedd am natur, effaith ac effaith ymarferol y gofynion arfaethedig. Yn olaf, bydd ffermwyr yn cael gwybodaeth glir am breifatrwydd mewn perthynas â sut y bydd eu data yn cael ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru ac unrhyw bartneriaid.

O ran y pwynt a godwyd gan Sarah Murphy AS mewn perthynas â GDPR y DU a'r posibilrwydd y gallai Llywodraeth y DU ei ddiddymu, gallaf gadarnhau bod swyddogion Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda swyddogion Llywodraeth y DU ar y Bil Drafft Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol. Rwy'n ymwybodol o sylwadau diweddar a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, fodd bynnag, ar hyn o bryd nid oes gennym unrhyw wybodaeth bellach gan Lywodraeth y DU am yr hyn y gallai hyn ei olygu i'r Bil Drafft Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol. O ganlyniad, mae swyddogion yn parhau i weithio ar y sail y bydd GDPR y DU a'r ddeddfwriaeth diogelu data gyffredinol arall sydd eisoes yn bodoli yn parhau mewn grym hyd nes y cânt eu diwygio neu eu disodli gan Lywodraeth y DU. Bydd unrhyw newidiadau i GDPR y DU yn arwain at oblygiadau eang, a bydd angen ystyried unrhyw ddeddfwriaeth newydd a gynigir yn lle GDPR y DU yn ofalus unwaith y bydd y manylion yn hysbys.

Cofion,

Lesley Griffiths

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**